NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Llid briwiol y coluddyn: rheoli

3 Mai 2019

## Llid briwiol y coluddyn: y gofal y dylech ei ddisgwyl

Mae llid briwiol y coluddyn yn gyflwr gydol oes lle y daw'r coluddyn mawr (y colon) yn llidus. Gall achosi poen yn yr abdomen, dolur rhydd (a all fod yn waedlyd), blinder a cholli pwysau. Fel arfer mae symptomau yn mynd ac yn dod – maent yn ailymddangos yn sydyn cyn tawelu am ychydig wythnosau neu fisoedd. Am nad yw'n bosibl rhagweld pryd bydd symptomau yn ailymddangos, gall byw gyda llid briwiol y coluddyn beri straen a phryder. Ni ellir gwella'r afiechyd ac, felly, nod y driniaeth yw rheoli symptomau cymaint â phosibl a helpu pobl i gael yr ansawdd bywyd gorau posibl.

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl â llid briwiol y coluddyn drwy sicrhau'r canlynol:

- mae meddygon yn gwybod y ffordd orau o drin symptomau pan fyddant yn ailymddangos, yn dibynnu pa mor ddifrifol ydynt a faint o'ch coluddyn yr effeithir arno
- mae eich meddyg yn esbonio'n llawn fanteision ac anfanteision gwahanol driniaethau â chyffuriau i atal y symptomau rhag ailymddangos, gan gynnwys unrhyw sgil-effeithiau, fel y gallwch benderfynu ar yr hyn sy'n addas i chi
- cewch gyngor arbenigol ar yr hyn y dylech ei ddisgwyl os yw llawdriniaeth yn opsiwn posibl i chi.

### Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

- Beth sydd bwysicaf i chi – beth rydych am ei gael allan o unrhyw driniaeth?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth sy'n eich pryderu fwyaf – a oes risgiau neu anfanteision i'r driniaeth sy'n peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os nad ydych am gael triniaeth?

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?**

Ceir rhagor o wybodaeth am lid briwiol y coluddyn ar wefan y GIG.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Crohn's and Colitis UK, 0300 222 5700
- Crohn's in Childhood Research Association (CICRA), 020 8949 6209
- IA (the ileostomy and internal pouch support group), 0800 0184 724

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Lluniwyd y canllaw hwn ar y cyd â phobl y mae llid briwiol y coluddyn wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3393-8



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.